
# Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd Cymru: Gogledd Cymru

30 Mai 2019
SFR 40/2019

Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Nod y datganiad hwn yw rhoi dadansoddiad ystadegol o ranbarth Gogledd Cymru a thynnu sylw at wahaniaethau a allai fodoli ledled y rhanbarth ar gyfer y naw pwnc dan sylw.




**Pwyntiau Allweddol**

- Mae poblogaeth Gogledd Cymru wedi'i dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng ei hawdurdodau lleol nag yn y ddau ranbarth arall, yn amrywio o tua 155,000 o drigolion yn Sir y Fflint i tua 70,000 ar Ynys Môn.
- Mae siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn ffurfio cyfran uwch o'r boblogaeth nag mewn rhanbarthau eraill.
- Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf a'r cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd isaf o blith tri rhanbarth Cymru.
- Dengys y data rhanbarthol mwyaf diweddar sydd ar gael fod Incwm Domestig Gros Aelwydydd yn uwch yng Ngogledd Cymru nag yn rhanbarthau eraill Cymru.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn un o bedwar allbwn ystadegol sy'n crynhoi ystadegau ar naw pwnc allweddol i Gymru a thri rhanbarth economaidd Cymru, fel y'u diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd.

Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

## Yn y datganiad hwn


| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 2 |
| Iechyd | 12 |
| Cyflogaeth | 14 |
| Trafnidiaeth | 19 |
| Yr Amgylchedd | 22 |
| Ffyniant | 26 |
| Seilwaith Digidol | 29 |
| Tai | 33 |
| Diwylliant a Threftadaeth | 37 |
| Gwybodaeth am Ansawdd | 38 |

Ystadegydd: Rebecca Large ~ 0300 025 5050 ~ desk.ystadegau@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099     Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050     Twitter: @YstadegauCymru

## Poblogaeth

### Ffigur 1: Y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2017, amcangyfrifir bod gan Ogledd Cymru boblogaeth o 696,300 o bobl[1].

O'r tri rhanbarth, poblogaeth Gogledd Cymru oedd wedi'i dosbarthu'n fwyaf cyfartal rhwng yr awdurdodau, ac roedd gan bedwar o'r chwe awdurdod, sef Sir y Fflint, Wrecsam, Gwynedd a Chonwy fwy na 100,000 o drigolion yr un. O'r rhain, Sir y Fflint oedd yr un mwyaf poblog, gyda thua 155,000 o drigolion ac Ynys Môn, gyda 70,000 o drigolion, oedd yr un lleiaf poblog.

[1] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mesuriadau ardal safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Roedd gan Ogledd Cymru ddwysedd poblogaeth[2] o 113.2 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn 2017.

Sir y Fflint oedd y mwyaf poblog o blith y chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth, gyda 354.6 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Gwynedd oedd yr awdurdod lleiaf poblog gyda 48.8 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Rhwng 2007 a 2017, cynyddodd dwysedd y boblogaeth 2.5 y cant yng Ngogledd Cymru. Hon oedd y gyfradd isaf o gynnydd yn nwysedd y boblogaeth o blith y tri rhanbarth yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Yr awdurdod lle y cafwyd y cynnydd mwyaf yn nwysedd y boblogaeth yn y rhanbarth oedd Gwynedd, sef 3.6 y cant. Ynys Môn oedd â'r gyfradd isaf, gyda dwysedd y boblogaeth yn cynyddu 0.1 y cant o 2007 i 2017.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod nifer a chyfran y trigolion sy'n byw mewn aneddiadau â 25,000 neu fwy o drigolion yn is yn y Gogledd na'r ddwy ranbarth arall. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith mai'r Gogledd yw'r unig ranbarth heb aneddiadau â dros 100,000 o drigolion.

[2] StatsCymru: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 3: Dosbarthiad y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, yn ôl oedran a rhyw, 2017**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth sy'n heneiddio[3]. Rhwng 1997 a 2017, mae cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd[4] wedi cynyddu o 19 y cant i 23 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 20 y cant i 18 y cant.

[3] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl rhyw a blwyddyn
[4] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran

**Ffigur 4: Newid canrannol yn y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 1997-2017**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cynyddodd y boblogaeth ym mhob un o'r chwe awdurdod yn y rhanbarth rhwng 1997 a 2017, gyda chyfradd twf poblogaeth ranbarthol[5] o 6.3 y cant dros y cyfnod hwn.

Roedd cyfradd twf y boblogaeth yn is rhwng 2007 a 2017 nag ydoedd rhwng 1997 a 2007. Conwy oedd â'r gyfradd twf poblogaeth fwyaf yn y rhanbarth rhwng 1997 a 2007 ac, er mai Gwynedd oedd â'r gyfradd twf poblogaeth isaf yn y rhanbarth rhwng 1997 a 2007, dyma'r awdurdod a gofnododd y gyfradd twf poblogaeth uchaf rhwng 2007 a 2017. Ynys Môn a gofnododd y cynnydd lleiaf yn y boblogaeth rhwng 2007 a 2017, gyda newid net o lai na 100 o drigolion dros y cyfnod hwn.

[5] StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 5: Elfennau o newid yn y boblogaeth yng Ngogledd Cymru dros amser**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Gan edrych ar ddata sy'n dangos elfennau o newid yn y boblogaeth[6] ledled Gogledd Cymru, gwelwn, ers y cyfnod 1991-1992, fod mwy o'r newid yn y boblogaeth i'w briodoli i ymfudo net a newidiadau eraill nag i newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau). Ers y cyfnod 1991-92, mae ymfudo net a newidiadau eraill wedi bod yn gwbl gadarnhaol, sy'n golygu bod mwy o bobl wedi bod yn symud i mewn i'r ardal nag sydd wedi bod yn symud allan (yn hytrach na genedigaethau a marwolaethau). Yn y cyfamser, mae newid naturiol (sef y gwahaniaeth rhwng nifer y genedigaethau a nifer y marwolaethau) wedi amrywio rhwng newid net cadarnhaol a negyddol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r newid hwn wedi bod yn un negyddol a lleihaol, sy'n golygu bod mwy o farwolaethau wedi bod yn y rhanbarth na genedigaethau.

Gan edrych ar awdurdodau lleol, gwelwn mai yng Ngwynedd y cafwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd ymfudo a newidiadau eraill yn ystod y cyfnod 2016-17. Gwelwn hefyd fod y newid yn y boblogaeth oherwydd ymfudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod, hwn. Cafwyd newid naturiol negyddol mewn pedwar o'r chwe awdurdod yn 2016 a 2017, a dim ond yn Sir y Fflint a Wrecsam y cafwyd mwy o enedigaethau na marwolaethau yn ystod y cyfnod. Yng Nghonwy y cafwyd y lefel uchaf o newid naturiol negyddol.

[6] StatsCymru: Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran

**Ffigur 6: Y newid rhagamcanol yn y boblogaeth yng Ngogledd Cymru dros amser, yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Yng Ngoledd Cymru, rhagamcenir[7] y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.1 y cant yn y cyfnod 2018 i 2028, a 3.1 y cant yn y cyfnod 2018 i 2038.


Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar brif amcanestyniadau poblogaeth. Er hyn, cynhyrchir nifer o amcanestyniadau amrywiadol sy'n darparu sefyllfaoedd eraill yn y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau gwahanol o gyfraddau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Nid yw'r rhain yn cynrychioli'r lefel uchaf nac isaf, ond maent yn dangos sut fyddai sefyllfa'r boblogaeth, er enghraifft, pe bai ffrwythlondeb yn gostwng yn is na'r hyn a dybir ar gyfer y prif amcanestyniad.

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru, yn seiliedig ar ffigurau 2014, yn ymyl y datganiad Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru[8].

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[9].

7 StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn
8 Llywodraeth Cymru: Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru (sail 2014)
9 SYG: Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: bwletin ystadegol sail-2016 (Saesneg yn unig)


**Ffigur 7: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2018-2038**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Rhagamcenir mai poblogaeth Wrecsam a fydd wedi tyfu fwyaf erbyn 2028. Yn y cyfamser, rhagamcenir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn lleihau 0.5 y cant erbyn 2028 a 2.4 y cant erbyn 2028 o gymharu ag amcanestyniad poblogaeth 2018. Mewn dau awdurdod, sef Conwy a Sir y Fflint, rhagamcenir y bydd y boblogaeth yn tyfu dros y 10 mlynedd nesaf ac wedyn yn lleihau yn ystod y 10 mlynedd ddilynol. Mae'r data hyn yn seiliedig ar yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagolygon.

**Ffigur 8: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol o bobl 65 a throsodd yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2018-2038 (yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014)**





Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Ledled Gogledd Cymru, rhagamcenir y bydd y boblogaeth o oedolion 65 oed a throsodd[10] yn tyfu i 189,500 erbyn 2028, sef cynnydd o 16.6 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2038, rhagamcenir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu i 214,600, sef cynnydd o 32.0 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Rhagamcenir y bydd y boblogaeth o oedolion 65 oed a throsodd yn tyfu ar gyfradd uwch na chyfanswm y boblogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r data hyn yn seiliedig ar yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol, ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagolwg.

[10] StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

**Ffigur 9: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Yn ôl data'r cyfrifiad[11], roedd 204,406 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn y rhanbarth yn 2011. Er efallai bod tebygrwydd rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd, mae hefyd yn bwysig ystyried canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal gan y gall hyn amrywio'n sylweddol yn sgil gwahaniaethau ym maint y boblogaeth.

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu'r ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn siarad Cymraeg (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon o gartrefi yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd[12] sy'n trafod data ar y Gymraeg.

Dengys data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[13], yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018, mai Gwynedd oedd yr awdurdod â'r gyfran uchaf o siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru a Chymru yn gyffredinol, gyda 76.4 y cant o'r trigolion tair oed a throsodd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Sir y Fflint oedd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru, sef tua 23.3%. Ar lefel ranbarthol, Gogledd Cymru oedd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, gyda thua 42.7 y cant yn y flwyddyn a ddaeth ben ym mis Mehefin 2018, sef cynnydd o tua 3.9 pwynt canran o gymharu â'r data o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2008. Fodd bynnag, mae hefyd yn werth nodi, ar lefel awdurdod lleol, fod Sir y Fflint yn un o ddim ond 2 awdurdod yng Nghymru lle mae cyfraddau siarad Cymraeg wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae canrannau rhanbarthol wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

[11] StatsCymru: Siaradwyr Cymraeg fesul Awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, cyfrifiad 2011
[12] Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy’n deillio o’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth
[13] StatsCymru: Amcangyfrifon Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o bobl 3 oed a throsodd sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a mesur

**Ffigur 10: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru, 2016-17**




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Yn 2016-17, cafwyd bron 20,000 o gofrestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (SAU)[14] yng Ngogledd Cymru, sy'n cyfateb i tua 14 y cant o gofrestriadau myfyrwyr ledled Cymru. Prifysgol Bangor a gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau AU yn y rhanbarth, sy'n cyfateb i fwy na 60 y cant o gyfanswm y cofrestriadau yn y rhanbarth. Noder bod y canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

[14] StatsCymru: Cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru yn ôl sefydliad, lefel a dull astudio


## Iechyd

Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda.

Dengys [data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol][15], yng Ngogledd Cymur 2015 a 2017, mai Gwynedd oedd yr awdurdod lleol â'r disgwyliad oes uchaf ar adeg geni â'r disgwyliad oes iach uchaf ar adeg geni ar gyfer merched, a'r disgwyliad oes iach uchaf ar gyfer dynion. Fodd bynnag, yn Sir y Fflint a Chonwy y cofnodwyd y disgwyliad oes uchaf ar gyfer dynion.

Wrecsam oedd yr awdurdod â'r disgwyliad oes iach isaf ar gyfer dynion a'r disgwyliad oes isaf ar gyfer merched. Ynys Môn oedd â'r disgwyliad oes iach isaf ar gyfer merched a Sir Ddinbych oedd â'r disgwyliad oes isaf ar gyfer dynion. Ystod canran disgwyliad oes mewn iechyd da ledled y rhanbarth oedd yr un isaf o blith rhanbarthau Cymru, sef 3.8 pwynt canran ar gyfer merched a 3.6 pwynt canran ar gyfer dynion.

**Ffigur 11: Oedolion 16 oed a throsodd sy'n dangos 0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw, yn ôl awdurdod lleol, 2016-17 a 2017-18* (wedi'u safoni yn ôl oedran)**




* Cyfunwyd y cyfnodau 2016-17 a 2017-18 am resymau yn ymwneud ag ansawdd data.


Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ledled Gogledd Cymru yn 2016-17 a 2017-18 wedi'u cyfuno, dangosodd 10 y cant o oedolion 16 oed neu drosodd 0 neu 1 o'r [pum ymddygiad ffyrdd iach o fyw][16,17].

[15] SYG: Disgwyliad oes mewn cyflwr iach, y DU: 2015 i 2017 (Saesneg yn unig)
[16] Arolwg Cendlaethol Cymru: iechyd poblogaethau
[17] Mae ymddygiadau iach yn cynnwys peidio ag ysmygu, yfed 14 o unedau neu lai o alcohol bob wythnos ar gyfartaledd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, cael mynegai màs y corff iach a bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos flaenorol.

O ystyried awdurdodau lleol yn y rhanbarth[18], Conwy ac Ynys Môn oedd yr awdurdodau lle y cofnodwyd y ganran isaf o lefelau isel o ymddygiadau ffyrdd iach o fyw (8 y cant), tra mai Gwynedd a Sir y Fflint oedd â'r gyfran uchaf o oedolion 16 oed neu drosodd a ddangosodd 0 neu 1 ymddygiad iach (12 y cant). Fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

**Ffigur 12: Canran yr oedolion 16 oed a throsodd a nododd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn, yn ôl awdurdod lleol, 2016-17 a 2017-18* (wedi'i safoni yn ôl oedran)**




* Cyfunwyd y cyfnodau 2016-17 a 2017-18 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

O fewn y rhanbarth, nododd 74 y cant o oedolion 16 oed a throsodd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn[19] yn 2016-17 a 2017-18 wedi’u cyfuno. Hon oedd y gyfran uchaf a gofnodwyd yn nhri rhanbarth Cymru. O ddadansoddi'r data yn ôl awdurdod lleol, gwelwn mai Gwynedd oedd â'r lefel uchaf o iechyd hunangofnodedig, gyda 77 y cant o oedolion 16 oed neu drosodd yn nodi eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn. [20] Wrecsam oedd â'r gyfran isaf yn y rhanbarth, sef 67 y cant.

[18] Ar gyfer data awdurdodau lleol a gymerwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru (0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw ac iechyd da hunangofnodedig), nid yw pob gwahaniaeth rhwng awdurdodau lleol yn ystadegol arwyddocaol.

[19] Arolwg Cenedlaethol Cymru: iechyd poblogaethau


[20] Ar gyfer data awdurdodau lleol a gymerwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru (0 neu 1 ymddygiad ffyrdd iach o fyw ac iechyd da hunangofnodedig), nid yw pob gwahaniaeth rhwng awdurdodau lleol yn ystadegol arwyddocaol.

## Cyflogaeth

| Y gyfradd cyflogaeth (y boblogaeth 16-64 oed) | Y gyfradd diweithdra (y boblogaeth 16 oed a throsodd) | Y gyfradd anweithgarwch economaidd (heb gynnwys myfyrwyr) (y boblogaeth 16-64 oed) |
|---|---|---|
| 75.7% | 3.6% | 18.1% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r data yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018

**Ffigur 13: Y gyfradd cyflogaeth yng Ngogledd Cymru, 1999-2018**




**Nodiadau**

Mae data ar gyfer 1999-2004 ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 28 Chwefror. Mae data o 2005 ymlaen ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin. Nid ystyriwyd bod data 1999 na 2000 ar gyfer y lefel daearyddiaeth hon yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf a'r cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd isaf o blith tri rhanbarth Cymru.

Y lefel cyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd cyflogaeth[21] yw canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. O blith y tri rhanbarth, Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd cyflogaeth uchaf yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018 a hwn hefyd oedd y rhanbarth â'r ystod leiaf yn y gyfradd cyflogaeth a'r lefel gyflogaeth ar draws awdurdodau lleol. Golyga hyn fod y lefel cyflogaeth wedi'i dosbarthu'n fwy cyfartal ledled awdurdodau lleol Gogledd Lleol o gymharu â'r ddau ranbarth arall, sy'n adlewyrchu dosbarthiad cyfartal y boblogaeth ledled yr awdurdodau lleol, fel y gwelir yn y bennod ar Boblogaeth.

Ers 2001, mae cyfradd cyflogaeth y rhanbarth hwn wedi cynyddu 6.1 pwynt canran, yn gyflymach na chynnydd Cymru, sef 5.5 y cant. Ynys Môn oedd yr awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a gofnododd y cynnydd mwyaf yn y gyfradd cyflogaeth, sef 9.9 pwynt canran dros yr un cyfnod.

Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r gyfradd diweithdra[22] yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddiwaith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018, y gyfradd diweithdra yng Ngogledd Cymru oedd 3.6 y cant, a oedd yn is nag unrhyw ranbarth arall yng Nghymru, ac islaw cyfraddau diweithdra'r DU a Chymru hefyd. Ers 2001, mae'r gyfradd diweithdra yng Ngogledd Cymru wedi gostwng 0.9 pwynt canran. Cyfradd diweithdra Sir y Fflint a welodd y newid mwyaf sylweddol, gan ostwng 2.6 pwynt canran ers 2001.


Y gyfradd anweithgarwch economaidd[23] yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Ngogledd Cymru oedd 18.1 y cant, sef gostyngiad o 6.5 pwynt canran o gymharu â 2001. Roedd y newid hwn ychydig yn fwy na'r newid a welwyd ledled Cymru. Cyfradd anweithgarwch economaidd Wrecsam a welodd y newid mwyaf sylweddol, gan ostwng 10.8 pwynt canran ers 2001.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym Mhrofiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru[24].

---

21 StatsCymru: Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw
22 StatsCymru: Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn
23 StatsCymru: Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn
24 Llywodraeth Cymru: Proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd

**Ffigur 14: Cyflogaeth yn y gweithle, yn ôl awdurdod lleol, 2017**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Dengys data cyflogaeth yn y gweithle[25,26] fod 309,300 o bobl yn gweithio yn y rhanbarth yn 2017. Lefel gyfartalog cyflogaeth o fewn chwe awdurdod lleol y rhanbarth oedd 51,600. Hon oedd y lefel isaf yng Nghymru, yn ogystal â lefel ganolrifol y rhanbarth, sef 50,700.

Yn y sector Gwybodaeth a chyfathrebu y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf o bell ffordd yn nifer y gweithwyr dros y cyfnod 2007 i 2017, tra mai yn y sector Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth y gwelwyd y newid mwyaf yn lefel cyflogaeth, a sicrhaodd 8,200 o bobl ychwanegol. Yn y sector Cynhyrchu y gwelwyd y gostyngiad mwyaf, mewn termau canrannol. Fodd bynnag, wrth ystyried nifer y gweithwyr, y sector Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd a ostyngodd fwyaf dros y cyfnod hwn yn y rhanbarth, gan golli tua 9,300 o weithwyr ledled Gogledd Cymru. Noder bod newidiadau canrannol wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

[25] StatsCymru: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang

[26] Cesglir data cyflogaeth yn y gweithle gan fusnesau drwy Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), ac mae'n canolbwyntio ar ddata cyflogaeth a chyflogeion. Mae hyn yn cyferbynnu â data'r Arolwg o'r Gweithlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, a ddaw o ddata a gesglir yn bennaf oddi wrth breswylwyr cartrefi preifat.

**Ffigur 15: Y newid ym mhoblogaethau awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2017**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, y newid net yn nifer y gweithwyr ledled y rhanbarth oedd -25,000, sef y newid net mwyaf o blith y tri rhanbarth. Dengys hyn fod nifer y bobl yn y rhanbarth yn amrywio wrth i bobl fynd y tu allan i'r rhanbarth i weithio[27], yn arbennig ar draws y ffin i ardaloedd fel Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, a Swydd Amwythig. Noder bod newidiadau net a data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

Dengys data o 2017 fod y newid net yn y boblogaeth o weithwyr[28] yn negyddol mewn pedwar o chwe awdurdod lleol y rhanbarth, sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, fod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Sir y Fflint, sef yr awdurdod lleol mwyaf poblog yn y rhanbarth, a welodd yr all-lif mwyaf o weithwyr.

27 StatsCymru: Patrymau cymudo manwl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru
28 StatsCymru: Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur

**Ffigur 16: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data Cyfrifiad 2011[29], ar gyfartaledd, fod trigolion mewn gwaith 16-74 oed ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth yn cymudo ymhellach i'r gwaith na chyfartaledd Cymru, ac eithrio yn Wrecsam. Mae pellteroedd cymudo wedi cynyddu ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth ers 2001.

Fel yng ngweddill Cymru a'r DU, dengys data 2018[30] fod gan y mwyafrif helaeth o fusnesau lai na 10 cyflogai. Wrth gymharu dosbarthiad busnesau rhwng y rhanbarthau yn ôl maint, roedd Gogledd Cymru rhwng De-ddwyrain Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru ar gyfer pob categori maint band ac eithrio ar gyfer Busnesau Bach, yr oedd ganddi'r gyfran fwyaf ohonynt o blith y tri rhanbarth. Mae canrannau yn seiliedig ar ddata wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd..


Dengys data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2017, mewn dau awdurdod lleol yn y rhanbarth (sef Gwynedd a Sir y Fflint) fod cyfran y dynion a'r merched 18-64 oed heb gymwysterau[31] yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru, sef 8.7 y cant, ac yn un o'r rhain, sef Sir y Fflint, roedd canran y dynion a'r merched 16-64 oed â chymwysterau hyd at NQ lefel 2 yn is na lefel Cymru, sef 78.5 y cant.

---

[29] SYG: Dadansoddiad Cyfrifiad 2011, Pellter a deithiwyd i'r gwaith (Saesneg yn unig)
[30] StatsCymru: Mentrau yn ôl diwydiant (ISC2007), band maint ac ardal
[31] StatsCymru: Lefel uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl awdurdod lleol

## Trafnidiaeth

### Ffigur 17: Seilwaith Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru




Ffynhonnell: Arolwg Ordnans


Mae seilwaith trafnidiaeth Gogledd Cymru yn cynnwys porthladd a phorthladd fferi yng Nghaergybi ar Ynys Môn, yn ogystal ag 1 o'r ddau faes awyr yng Nghymru.

Caergybi, y trydydd porthladd[32] pwysicaf yng Nghymru yn ôl swm y nwyddau sy'n cael eu cludo, yw'r prif borthladd ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr dros y môr i Weriniaeth Iwerddon.

Mae'r A55[33] yn rhedeg am tua 87 milltir o borthladd Caergybi, drwy awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint cyn croesi'r ffin i Loegr a gorffen yng Nghaer. Mae dwy ran o’r A55 lle'r oedd cyflymder cyfartalog yn aml yn llai na 30 mya rhwng Ebrill a Mehefin 2016. Mae’r darnau hyn yng Nghaergybi a ger croesfan Pont Britannia.

[32] Llywodraeth Cymru: Cludiant Môr
[33] Llywodraeth Cymru: Cyflymder cerbydau ar yr A55 (Ebrill i Mehefin 2016)

**Ffigur 18: Dulliau o deithio i'r gwaith a ddefnyddir gan drigolion cyflogedig Gogledd Cymru rhwng 16 a 74 oed, 2011**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r cyfrifiad o 2011[34], roedd 75.7 y cant o weithwyr 16-74 oed a oedd yn byw yng Ngogledd Cymru yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Mae hyn yn cyfateb i tua 237,000 o bobl ledled y rhanbarth. Roedd 11.9 y cant (37,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd 5.1 y cant (16,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets.

Gogledd Cymru oedd y rhanbarth lle roedd oedolion 16 oed a throsodd yn lleiaf tebygol o gerdded am fwy na 10 munud fel dull teithio[35] yn 2017-18. Yn Sir y Fflint y cofnodwyd yn gyfran uchaf , lle roedd 65 y cant yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis, ac yng Ngwynedd y cofnodwyd y gyfran isaf (30 y cant) yn y rhanbarth ac yng Nghymru. Yn yr un cyfnod, yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o oedolion 16 oed a throsodd a oedd yn defnyddio beic fel dull teithio o leiaf unwaith y mis oedd Sir y Fflint (17 y cant). Hon oedd y ganran uchaf yng Nghymru. Yn Sir Ddinbych y cofnodwyd y defnydd rheolaidd isaf o feiciau (2 y cant).


Yng Ngogledd Cymru yn 2016-17, disgyblion ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych oedd fwyaf tebygol yn y rhanbarth o deithio i'r ysgol yn y car (35 y cant). Disgyblion o awdurdod lleol Sir y Fflint oedd fwyaf tebygol yn y rhanbarth o gerdded ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill (49 y cant), tra roedd y mwyafrif o'r disgyblion ar Ynys Môn (54 y cant) yn teithio i'r ysgol ar fws ysgol. Wrecsam oedd â'r gyfran uchaf o blant a oedd yn teithio i'r ysgol uwchradd ar fws lleol o bell ffordd (23 y cant).

Gan edrych ar blant ysgol gynradd yn y rhanbarth dros yr un cyfnod, roedd y disgyblion yn teithio i'r ysgol yn bennaf yn y car neu ar droed. Disgyblion yn Sir y Fflint oedd fwyaf tebygol o deithio yn y car (68 y cant) a disgyblion yn Wrecsam oedd lleiaf tebygol o wneud hynny (45 y cant). O ran cerddwyr, yn Wrecsam y cofnodwyd y gyfran uchaf (53 y cant) ac Ynys Môn oedd â'r ganran isaf (37 y cant).

---

[34] Nomis, SYG: Trafnidiaeth i'r gwaith (Tabl QS701EW) (Saesneg yn unig)
[35] Llywodraeth Cymru: Teithio Llesol: cerdded a beicio (Ebrill 2017 i Mawrth 2018)

**Ffigur 19: Teithiau trên a wnaed yng Ngogledd Cymru dros amser, yn ôl awdurdod lleol**




Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd


Ledled Gogledd Cymru, gwnaed bron 1.4 miliwn o deithiau trên[36] yn 2016-17, sef cynnydd o 202,000 o gymharu â 2006-07. Yn 2016-17, digwyddodd y gyfran fwyaf o'r teithiau hyn (37.7 y cant) yng Ngwynedd. Fodd bynnag, Wrecsam oedd yr awdurdod lleol lle y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y teithiau trên, mewn termau canrannol, dros y cyfnod o 10 mlynedd, sef 25.8 y cant. Ynys Môn oedd yr unig awdurdod lleol yng Nghymru lle y gostyngodd nifer y teithiau trên a ddechreuodd a/neu a orffennodd yn yr awdurdod rhwng y cyfnodau hyn.

Yn 2016-17, roedd 66 o orsafoedd rheilffordd[37] yng Ngogledd Cymru, gyda 3 o'r rhain, sef Bangor, y Rhyl a Gorsaf Gyffredinol Wrecsam, ymhlith yr 20 o orsafoedd prysuraf yng Nghymru o ran nifer y mynediadau a'r ymadawiadau.

[36] StatsCymru: Teithiau rheilffyrdd gan deithwyr fesul Awdurdod Lleol a blwyddyn
[37] Llywodraeth Cymru: Defnydd gorsafoedd rheilffordd (Ebrill 2016 i Mawrth 2017)

## Yr amgylchedd

### Ffigur 20: Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Ngogledd Cymru





Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Yng Ngogledd Cymru, mae Pen y Gogarth, Arfordir Gogledd Ynys Môn, Mynydd y Tŵr, Traeth Mawr ac Arfordir Llŷn wedi'u dynodi'n Arfordiroedd Treftadaeth[38] er mwyn eu diogelu rhag datblygiadau ansensitif. Yn y rhanbarth hwn hefyd ceir Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig[39] Migneint-Arenig-Dduallt; Craig yr Aderyn; Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli; Arfordir Ynys Gybi; Mynydd Cilan, Trwyn yr Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal; Morwenoliaid Ynys Môn; Traeth Lafan, Bae Conwy; ac Ynys Seiriol, yn ogystal â rhannau o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Berwyn, Aber Afon Dyfrdwy, Bae Lerpwl a Gogledd Bae Ceredigion. Diben y rhain yw diogelu rhywogaethau adar sydd naill ai'n brin neu'n agored i niwed neu sydd, yn achos adar mudol, yn ymweld ag arfordiroedd Cymru yn rheolaidd.

38 Lle: Arfordir Treftadaeth
39 Lle: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig

**Ffigur 21: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yng Ngogledd Cymru**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Gogledd Cymru yn gartref i Barc Cenedlaethol[40] Eryri, yn ogystal â thair Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AOHNE)[41]: Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; Ynys Môn; a Llŷn.

## Ansawdd Aer


Sir y Fflint oedd â'r crynodiad mwyaf o nitrogen deuocsid[42] yn yr aer yn y rhanbarth yn 2017 (sef 9 µg/m$^3$), a'r crynodiad lleiaf a nodwyd oedd 5 µg/m$^3$ ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd. Mae'r crynodiad a nodwyd wedi lleihau ym mhob awdurdod lleol ledled y rhanbarth ers 2007, gyda'r lleihad mwyaf yn cael ei nodi yn Wrecsam (5µg/m$^3$).

## Ynni

Yng Ngogledd Cymru yn 2017, roedd capasiti o 658 megawat (MW) o ynni carbon isel[43]. Roedd hyn yn cyfateb i 18 y cant o gyfanswm Cymru ac roedd yn is nag yn y ddau ranbarth arall yng Nghymru. Sir Ddinbych oedd yr awdurdod lleol gyda'r capasiti lleiaf o ynni carbon isel yn y rhanbarth (65 MW). Sir y Fflint oedd â'r capasiti mwyaf o ynni carbon isel yn y rhanbarth, gyda mwy na thraean o holl gapasiti'r rhanbarth. Roedd 86 y cant o'r 17,400 o brosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol).[44]

[40] Lle: Parciau Cenedlaethol
[41] Lle: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
[42] StatsCymru: Dangosyddion Ansawdd Aer, fesul Awdurdod Lleol
[43] StatsCymru: Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol a Technoleg
[44] (r) Adolygwyd y paragraff hwn ar 23/08/2019

**Ffigur 22: Trin gwastraff trefol yng Ngogledd Cymru**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2017-18, lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol[45] a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio oedd 65 y cant yng Ngogledd Cymru, o gymharu â 54 y cant yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer.


Roedd y gyfradd ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio a gofnodwyd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol yn 2017-18, o 60 y cant yng Ngwynedd i 72 y cant ar Ynys Môn. Hon hefyd oedd y ganran uchaf a gofnodwyd yng Nghymru.

Lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi[46] oedd 10 y cant yn 2017-18, o gymharu â 44 y cant yn 2012-13.

---

[45] StatsCymru: Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol gan awdurdod lleol
[46] StatsCymru: Rheolaeth o wastraff blynyddol gan ddull rheoli

**Ffigur 23: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg) yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18**




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Amrywiai gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi[47] a gynhyrchwyd y pen ledled Gogledd Cymru yn 2017-18 o 167kg yng Nghonwy i 254kg yn Wrecsam. Yng Nghonwy y cofnodwyd y newid mwyaf mewn gwastraff gweddilliol cartrefi a gynhyrchir y pen ers 2012-13, sef gostyngiad o 24 y cant, neu 53kg y pen. Yn y cyfamser, cynhyrchodd trigolion Wrecsam 35kg yn fwy o wastraff gweddilliol cartrefi, ar gyfartaledd, yn 2017-18 nag yn 2012-13.

[47] StatsCymru: Nifer blynyddol o wastraff cartrefi wedi'u cynhyrchu pob person (cilogramau) gan awdurdod lleol

## Ffyniant

Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned sy'n ymwneud â chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanbarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r demograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn erthygl blog[48] y Swyddfa Ystadegau Gwladol . Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallant arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.

Yng Ngogledd Cymru, GYG y pen[49] oedd £20,753 yn 2017[50]. Roedd gan Wynedd, Sir y Fflint a Wrecsam i gyd GYG y pen a oedd yn uwch na gwerth Cymru. Fodd bynnag, Sir y Fflint oedd yr unig awdurdod lleol yn y rhanbarth lle roedd GYG y pen yn uwch na gwerth y DU. Yn y cyfamser, Ynys Môn oedd â'r lefel isaf o GYG y pen yn y rhanbarth (£14,314), sy'n rhoi ystod o £14,606 rhwng y lefelau uchaf ac isaf ledled Gogledd Cymru. Ledled y rhanbarth, cynyddodd GYG y pen 4.4 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 80.2 y cant ers 1999. Yn Sir y Fflint y gwelwyd y newid canrannol mwyaf mewn GYG ers 1999 a 2016, a gynyddodd 108.7 y cant yn y naill flwyddyn ac 8.3 y cant yn y llall.


Yng Ngogledd Cymru, Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) y pen[51] oedd £16,502 yn 2016, sef yr uchaf o blith y tri rhanbarth economaidd. Ledled y rhanbarth, cynyddodd GDHI y pen 0.8 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 60.8 y cant ers 1999.

Yng Ngogledd Cymru, enillion gros canolrifol yr wythnos[52] cyflogeion llawn amser yn 2018 oedd £498.80. Cynyddodd enillion ym mhob awdurdod lleol ledled y rhanbarth o gymharu â 2017 ac eithrio ar Ynys Môn, lle y gostyngodd enillion 4.3 y cant, neu £20.10. Ynys Môn oedd â'r enillion canolrifol lleiaf o blith yr awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn 2018. Sir y Fflint oedd â'r enillion canolrifol mwyaf o hyd (£553.00), ac yn yr awdurdod hwn roedd enillion canolrifol yr wythnos bron £50 yn uwch nag yn y rhanbarth â'r lefel uchaf ond un o enillion. Yng Ngwynedd y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf mewn enillion canolrifol rhwng 2017 a 2018, sef 12.2 y cant (£50.90).

[48] National Statistical, SYG: Mind the gap: why the UK might not be the most regionally unequal country (Saesneg yn unig)
[49] StatsCymru: Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn
[50] Y data a gynhwyswyd yw'r dull gweithredu cytbwys ar gyfer GYG
[51] StatsCymru: Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn
[52] StatsCymru: Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£)

Mae data'r SYG[53] yn amcangyfrif cyfran y gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw (sef £8.75 yn 2018, fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation). Yn 2018, dengys y canlyniadau, ledled y rhanbarth, fod ystod o 11.2 pwynt canran rhwng yr awdurdodau lleol. Y ganran uchaf oedd 35.3 y cant yng Nghonwy a'r isaf oedd 24.1 y cant yn Sir y Fflint. Noder bod yr amcangyfrifon hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, sy'n bennaf yn adlewyrchu maint y samplau.

**Ffigur 24: Disgyblion 5-15 oed a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Ngogledd Cymru, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18**




Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Llywodraeth Cymru

Yng Ngogledd Cymru, roedd 15.4 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim[54] yn 2017/18, sef cynnydd o 1.9 pwynt canran ers 2007/08. Yn Sir Ddinbych y cofnodwyd y gyfradd uchaf (sef 17.6 y cant), ac yng Ngwynedd y cofnodwyd yr un isaf (sef 12.2 y cant).

[53] SYG: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion (ASHE) - Amcangyfrifon nifer a chyfran o swyddi gyda thâl wrth yr awr sy'n is na'r gyflog byw, fesul daearyddiaeth gwaith, awdurdod lleol ac etholaeth seneddol, y DU, Ebrill 2017 ac Ebrill 2018 (Saesneg yn unig)
[54] StatsCymru: Disgyblion 5-15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)[55] yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae rhanbarth y Gogledd yn cynnwys 423 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Mae hyn yn 22 y cant o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru.

Wrth edrych ar yr 191 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Cymru yn 2014 - sef y 10 y cant mwyaf difreintiedig, mae 23 ohonynt yn y Gogledd. Mae hwn yn cyfateb i 5 y cant o'r holl Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y rhanbarth, a 12 y cant o'r 10 y cant mwyaf difreintiedig ledled Cymru.

Sylwch y bydd MALIC yn cael ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2019, gan gynnwys offeryn ar-lein i roi rhagor o fanylion ystadegol fesul rhanbarth economaidd.

## Busnesau


Yng Ngogledd Cymru, roedd 92.7 y cant o'r busnesau a sefydlwyd yn 2012[56] yn dal i fodoli ar ôl eu blwyddyn gyntaf, ac roedd 44.9 per cent yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Mae canrannau wedi'u cyfrifo ar sail ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

---

55 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
56 StatsCymru: Cyfradd goroesi busnesau yn ôl rhanbarth a blwyddyn y goroesiad

## Seilwaith Digidol

**Ffigur 25: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Ngogledd Cymru a allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn neu wibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu


Yng Ngogledd Cymru ym mis Medi 2018, roedd cysylltiad band eang sefydlog cyflym iawn (30Mbit/e neu'n uwch) neu gysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300 Mbit/e neu'n uwch)[57] ar gael i 91 y cant o'r boblogaeth, yn amrywio o 87 y cant yng Ngwynedd i 94 y cant yn Wrecsam.

Gallai 10 y cant o'r cartrefi a'r busnesau fanteisio ar gysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt (300Mbit/e neu'n uwch) – roedd hyn 38 pwynt canran yn is na chanran y DU, sef 49 y cant. Roedd canran y cartrefi a'r busnesau oedd yn gallu cael gwasanaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt yn amrywio o 4 y cant yng Nghonwy i 16 y cant yn Wrecsam.

Roedd gwasanaethau ffeibr llawn[58] ar gael i 10 y cant o'r cartrefi a'r busnesau ledled y rhanbarth ym mis Medi 2018. Hon oedd y gyfran uchaf yng Nghymru ac roedd yn uwch na lefel y DU. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.

[57] Y Swyddfa Gyfathrebu: Cysylltu'r Gwledydd 2018
[58] Y Swyddfa Gyfathrebu: Creu dyfodol ffibr-llawn


**Ffigur 26: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Ngogledd Cymru nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Nid oedd bron 13,300 o gartrefi a busnesau ledled y rhanbarth, neu 4 y cant, yn bodloni gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ym mis Medi 2018, sy'n golygu nad oeddent yn gallu manteisio ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e na chyflymder lanlwytho o 1Mbit/e. Roedd y gyfran hon uwchlaw cyfartaleddau Cymru (3 y cant) a'r DU (2 y cant).

**Ffigur 27: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Ngogledd Cymru a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu’r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Gan edrych ar wasanaethau 4G, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yng Ngogledd Cymru a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2018 yn amrywio o 22 y cant ar Ynys Môn i 69 y cant yn Wrecsam. Cyfartaledd y DU oedd 77 y cant a chyfartaledd Cymru oedd 69 y cant.

O ran cwmpas daearyddol, nid oedd 19 y cant o arwynebedd Gwynedd yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr, sy'n fwy nag mewn unrhyw awdurdod lleol arall yn y rhanbarth neu'n wir yng Nghymru. Fodd bynnag yn Sir y Fflint, roedd yr ardal ddaearyddol nad oedd yn cael ei gwasanaethu gan unrhyw weithredwr yn llai nag 1 y cant.

**Ffigur 28: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Ngogledd Cymru a allai gael gwasanaeth galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ar gyfer gwasanaethau galwadau ffôn yng Ngogledd Cymru, roedd canran y cartrefi a'r busnesau yng Ngogledd Cymru a oedd yn cael signal dan do gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2018 yn amrywio o 62 y cant ar Ynys Môn i 86 y cant yn Wrecsam.

Mewn tri awdurdod lleol yn y rhanbarth (sef Ynys Môn, Sir Ddinbych a Sir y Fflint), roedd canran ardal ddaearyddol Cymru nad oedd yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr yn llai nag 1 y cant, er mai 10 y cant oedd y gyfran yng Ngwynedd, sef yr un uchaf yng Nghymru.

## Tai

### Ffigur 29: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yng Ngogledd Cymru dros amser (pob deiliadaeth)





Ffynhonnell: Amcangyfrifon Stoc Annedd, Llywodraeth Cymru

Mae cyfanswm yr anheddau[59] yng Ngogledd Cymru wedi parhau i gynyddu'n raddol ac amcangyfrifir bod 325,200 o anheddau ar 31 Mawrth 2017. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 5 y cant dros y 10 mlynedd flaenorol. Roedd anheddau wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal rhwng yr awdurdodau lleol nag mewn rhanbarthau eraill, yn amrywio o 35,000 o anheddau ar Ynys Môn i 68,000 yn Sir y Fflint. Roedd 14 y cant o'r holl anheddau ledled y rhanbarth yn cael eu rhentu'n breifat ac roedd 71 y cant yn eiddo i berchen-feddianwyr; roedd y ddwy ganran 1 pwynt canran yn is na 5 mlynedd ynghynt.


[59] StatsWales: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth

**Ffigur 30: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru dros amser**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

**Ffigur 31: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru dros amser, yn ôl deiliadaeth**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru[60]


Cwblhawyd 1,311 o anheddau newydd[61] ledled Gogledd Cymru dros y cyfnod 2017 i 2018. Mae'r ffigur hwn 26 y cant yn llai na 10 mlynedd ynghynt ac 1 y cant yn llai nag 20 mlynedd ynghynt. Yn Sir y Fflint y cwblhawyd y nifer fwyaf o anheddau newydd dros y cyfnod 2017 i 2018 (sef 428, neu 33 y cant) ac ar Ynys Môn y cwblhawyd y nifer leiaf o anheddau (sef 110, neu 8 y cant).

[60] Daw'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu.Weithiau, mae'n anodd i swyddogion rheoli adeiladu nodi a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ddatblygwr preifat, a all arwain at dangyfrif nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gorgyfrif nifer y tai ar gyfer y sector preifat.

[61] StatsCymru: Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o amnedd a nifer yr ystafelloedd gwely

Dengys data o Fynegai Prisiau Tai'r DU[62, 63], ym mis Medi 2018, fod prisiau tai cyfartalog yng Ngogledd Cymru yn amrywio o £151,900 yn Sir Ddinbych i £170,700 ar Ynys Môn. Hon oedd yr ystod leiaf mewn prisiau tai cyfartalog o blith y tri rhanbarth, a oedd yn adlewyrchu dosbarthiad mwy cyfartal o brisiau tai rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru nag a welwyd yn awdurdodau'r rhanbarthau eraill yng Nghymru. Conwy oedd yr awdurdod lleol lle y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn prisiau tai rhwng mis Medi 2008 a mis Medi 2018, gyda'r cyfartaledd yn cynyddu £15,200 (neu 10.5 y cant), Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod prisiau wedi gostwng dros y flwyddyn flaenorol. Yng Ngwynedd y gwelwyd y cynnydd lleiaf mewn prisiau tai, sef £10,400 (neu 7.2 y cant) dros yr un cyfnod.

**Figure 32: Cyfartaledd amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol (Gogledd Cymru)**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon o’r angen am dai ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol (ar sail data 2018)

Dengys amcangyfrifon o'r angen am dai[64], ar gyfer y pum mlynedd gyntaf (2018/19-2022/23), fod angen rhwng 1,100 a 1,900 o unedau tai ychwanegol yn flynyddol yng Ngogledd Cymru (gydag amcangyfrif canolog o 1,600). Yn ystod y trydydd cyfnod (2028/29-2032/33), mae’r amcangyfrif canolog yn llai na 1,000 ac o ganol yr 2030au i’w diwedd (2033/34-2037/38) yr amcangyfrif canolog yw ychydig yn fwy na 300 o unedau tai ychwanegol. Mae hyn yn adlewyrchu arafu yn yr amcanestyniadau twf aelwydydd o amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2014. Noder y bydd amcangyfrifon o'r angen am dai yn ôl deiliadaeth (tai'r farchnad a thai fforddiadwy) ar lefel ranbarthol yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar ein gwefan[65].

[62] Cofrestrfa Tir EM: Mynegai Prisiau Tai'r DU (Saesneg yn unig)
[63] Roedd y data yn gywir adeg cyhoeddi Mynegai Prisiau Tai'r DU ym mis Rhagfyr 2018. Mae Mynegai Prisiau Tai'r DU yn fynegai wedi'i addasu yn ôl y cymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli er mwyn adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir Mynegai Prisiau Tai'r DU bob mis. Mae'r holl ffigurau ym Mynegai Prisiau Tai'r DU yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.
[64] Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai (sail-2018)
[65] Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai

Dengys amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014[66], erbyn 2028, y gallai fod tua 108,400 o aelwydydd un person yng Ngogledd Cymru, sef cynnydd o 9 y cant o gymharu â'r lefel ragamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2039, mae'r nifer ragamcanol yn fwy na 115,600.

Mae maint cyfartalog rhagamcanol aelwyd yng Ngogledd Cymru yn 2028 yn amrywio o 2.13 yng Nghonwy i 2.26 yn Sir y Fflint. Dylid nodi bod y data hyn yn amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol ac ni ddylid eu defnyddio fel rhagolygon.


Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol[67] fod 107 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Gogledd Cymru yn y pythefnos rhwng 16 a 29 Hydref 2017. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad bach o 2 y cant (dau unigolyn) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016, gyda'r nifer yn cynyddu mewn tri awdurdod lleol ac yn gostwng yn y tri arall. Roedd tua 42 y cant o'r bobl a oedd yn cysgu ar y stryd ledled y rhanbarth wedi'u lleoli yn Wrecsam, ac eto roedd y gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn cysgu ar y stryd (16 o bobl), o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn fwy yma nag yn yr awdurdodau lleol eraill ledled y rhanbarth.

---

66 StatsCymru: Amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn
67 StatsCymru: Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd yn ôl ardal awdurdod lleol

## Diwylliant a Threftadaeth

### Ffigur 33: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yng Ngogledd Cymru




Ffynhonnell: Cadw

Yn ogystal â'i hadeiladau rhestredig, mae 2 safle Treftadaeth y Byd UNESCO wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar safle sy'n ffurfio Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd (Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech), yn ogystal â dyfrbont a chamlas Pontcysyllte.

Cafodd Gogledd Cymru 22 miliwn o Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid[68] yn 2017, a arweinodd at gyfanswm gwariant o £700 miliwn. Er gwaethaf y dwristiaeth yng nghefn gwlad a gynigir gan ardaloedd megis Parc Cenedlaethol Eryri, roedd cyrchfannau ar gyfer ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Ngogledd Cymru yn fwyaf tebygol o fod wedi'u lleoli ar lan y môr neu ar yr arfordir, gyda'r ymweliadau hyn yn cyfrif am 31 y cant o'r ymweliadau dydd â'r rhanbarth gan dwristiaid. Roedd hon hefyd yn gyfran uwch nag ymweliadau â glan y môr a'r arfordir mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru.

Dengys Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru[69], yn 2017, fod gan Ogledd Cymru gyfradd flynyddol o 67 y cant ar gyfer defnydd ystafelloedd mewn gwestai[70].

Wrth ystyried nifer yr ymweliadau at atyniadau twristiaeth yng Nghymru[71] yn 2017, roedd 6 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd â thâl mynediad yng Nghymru yn 2017 yng Ngogledd Cymru, sef: Gardd Bodnant, Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru, Castell Conwy, Tramffordd Pen y Gogarth, Castell Caernarfon ac Erddig. Dros yr un cyfnod, roedd 4 o'r 10 atyniad mwyaf poblogaidd sydd am ddim yng Nghymru yng Ngogledd Cymru, sef: Canolfan Ymwelwyr Copa'r Wyddfa, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch, Dyfrbont Pontcysyllte a Pharc Coedwig Gwydyr.

[68] Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (2017)
[69] Llywodraeth Cymru: Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru (2017)
[70] Y gyfradd defnydd ystafelloedd yw nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddir dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm yr ystafelloedd gwely sydd ar gael.
[71] Llywodraeth Cymru: Ymweliadau ag atyniadau twristiaeth

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Felly, mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. Cymru, lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi cymorth o fewn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol[72]. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff y cyhoeddiad hwn ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a'r cyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar StatsCymru[73].

### Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU[74]. Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019, er bod diwygiadau wedi'u gwneud i ffynonellau data, fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a pherfformiad twristiaeth Cymru. Mae datganiadau mis Ionawr i fis Mehefin 2018 wedi'u hystyried. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau.

Ni fwriadwn ddiweddaru'r adroddiad hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

[72] Llywodraeth Cymru: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru
[73] Gwefan StatsCymru
[74] Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig: mathau o ystadegau swyddogol (Saesneg yn unig)

### Amseroldeb a phrydlondeb

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i gyd-fynd â'r broses o ddrafftio a chyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019.

### Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg), rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economegol-2019

## Dolenni cysylltiedig eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddaru. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at desg.ystadegau@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.